# Perlau Mân Llwyd Owen




Fi ’di clywed si eich bod chi’n meddwl ysgrifennu nofel.

Ydych chi’n hurt? Boncyrs? Dwl-al?

Nag oes ffrindiau gyda chi? Rhywbeth gwell i’w wneud?

Chwarae sboncen, falle. Loncian. Gwylio *Love Island*. Pobi cacs.

Go iawn?

Na fi chwaith.

Yn anffodus, rhaid dechrau gyda bach o newyddion drwg. Does dim *short cut* (neu ‘lwybr tarw’ yn ôl *Geiriadur yr Academi*) i ysgrifennu nofel. Y peth allweddol, ac efallai braidd yn amlwg, yw bod *rhaid* i chi ysgrifennu.

Lot.

Bob cyfle gewch chi.

Mae bywydau pawb yn brysur felly ’sdim pwynt ‘aros am yr awen’ a rhyw nonsens hen ffasiwn fel ’na.

Erbyn hyn, rwy’n ddigon lwcus i allu neilltuo bloc o amser i ysgrifennu’n greadigol, gan orffen drafft cyntaf nofel mewn rhyw ddeufis. Ond, yn y gorffennol, roedd y broses yn cymryd llawer hirach (blwyddyn gyfan i orffen drafft cyntaf), gan fod pethau dibwys fel swydd a theulu yn rhwystrau parhaus. Ro’n i’n arfer mynd amdani yn ystod fy awr ginio, er enghraifft, neu ar ôl i fy mhlant fynd i’r gwely. Yn aml, dyna’r peth diwetha ro’n i moyn ei wneud gyda’r nos, ar ôl bod yn cyfieithu am wyth awr, ond mae hyd yn oed ysgrifennu 200 gair cyn gwely yn cadw’r bêl i rolio, a chadw nifer y geiriau i godi.

A dyna’r wers gyntaf i chi. Ysgrifennwch. Bob cyfle sy’n codi. Crefft yw ysgrifennu, a dim ond trwy ymarfer y gallwch wella fel awdur. Er mai creadigrwydd sy'n cychwyn nofel, cofiwch mai gwaith caled a dyfalbarhad fydd yn eich galluogi chi i orffen un.

**Syniad neu sbarc cychwynnol**

Yn fy mhrofiad i, mae pob nofel wedi dechrau gyda syniad neu sbarc sy’n gweithredu fel sbringfwrdd ar gyfer gweddill y broses. Er enghraifft, mae fy nofel gyntaf, *Ffawd Cywilydd a Chelwyddau* (2006), yn seiliedig ar fy mhrofiadau yn gweithio fel *runner* i gwmni ôl-

gynhyrchu yn niwydiant teledu Caerdydd ar droad y ganrif, a hefyd fy obsesiwn ar y pryd â stori'r canwr blŵs neu'r felan o Mississippi, Robert Johnson (2025, ar-lein). Adeiladais *Ffydd Gobaith Cariad* (2006) ar chwedlau teuluol a fy mherthynas gyda fy mam-gu, Kitty, yn ystod ei blwyddyn olaf ar y blaned hon; daeth y syniad am *Mr Blaidd* (2009) o ymdrechion Dickie Attenborough i sefydlu stiwdios Valleywood yng nghymoedd De Cymru (Price 2014) ac o ddarllen hwiangerddi a straeon tylwyth teg i fy mhlantos bach. Mae *Pyrth Uffern* (2018) yn seiliedig ar lofruddiaeth April Jones ym Machynlleth yn 2012 ac ymateb y wasg i'r drychineb; mae hanes *Heulfan* (2012) yn ymwneud â phrofiad personol o ddelio ag adeiladwyr amheus; a daeth y syniad y tu ôl i *Taffia* (2016) o ddarllen dim mwy na chrynodeb o'r ffilm Fecsicanaidd, *Heli*.

Ond, fy hoff *origin story* o bell ffordd yw un *Yr Ergyd Olaf* (2007) . . .

Mae gwreiddiau'r nofel mewn tref fach drofannol o'r enw Mission Beach, sydd yng ngogledd Queensland, Awstralia. Traethau gwynion a phalmwydd tal hyd at y gorwel, *stingrays* di-ri yn y dŵr bas, a chasowarïaid yn crwydro'r fforestydd glaw. Cardyn post o le. Ro'n i'n byw yno yn y flwyddyn 2000, yn mwynhau bywyd ac yn gwneud nifer o bethau rwy'n mawr obeithio na fydd fy merched i'n eu gwneud pan fyddan nhw'n hedfan y nyth. Ro'n i'n byw mewn pabell, mewn rhyw fath o gomiwn i hipis, ac un noson yn gynnar yn ystod fy arhosiad galwodd y 'masnachwr perlysiau' lleol i werthu ei gynnyrch i ni'r preswylwyr. 'Tubbs' oedd ei enw. Cawr o ddyn ymhell dros ei chwe throedfedd, yn pwyso dros ugain stôn, a'i groen wedi'i orchuddio gan inc y tatŵydd. Y math o ddyn oedd yn gallu tyfu mwstas mewn deg munud. Y math o ddyn oedd fel petai ganddo alergedd at wenu. Ta beth, gyda'r behemoth blin yma yn ein plith, aeth pawb trwy eu pethau yn prynu beth bynnag oedd ganddo i'w gynnig, a phan ddaeth fy nhro i, dechreuais fân-siarad, jyst i fod yn boléit, fel y bachgen cwrtais dosbarth-canol da yr wyf. Ar glywed fy acen, cododd ei ben ac edrych arnaf trwy lygaid gwaetgoch.

'Where you from?' Gofynnodd.

'Wales', datganais, gan beidio dychmygu am eiliad y byddai angen ymhelaethu.

'What part of Wales?'

'Cardiff', atebais, gan weld gwên yn ymledu ar ei wyneb am y tro cyntaf y noson honno.

'Bloody hell, mate!' Ebychodd, gan godi ac estyn ei law. 'I'm from Dinas Powys!'

A dyna ni – diolch i'r cysylltiad Cymreig – yn ffrindiau mawr ar unwaith.

Roedd Tubbs yn aelod o'r gang beiciau modur, y Bandidos, a thros y misoedd nesaf rhoddodd fewnwelediad i fi o'r byd hwnnw – y gynnau, y cyffuriau, y tor-cyfraith, y beics, yr hanesion, y tatŵs, a'r pencadlys ali-gefn yn Cairns lle'r oedd y drws ffrynt yn cael ei amddiffyn gan ddau foi barfog yn cario Kalashnikovs, a'r bar-forwynion yn noethlymun. Y gwir yw nad oedd angen i fi ddychmygu gormod wrth greu cymeriad Tubbs a stori *Yr Ergyd Olaf* – yr unig beth roedd yn rhaid i fi ei wneud oedd symud yr hanes i Gymru, gyda'r prif gymeriad yn byw yn Ninas Powys, wrth gwrs.

Y pwynt yw, ’sdim ots ble chi’n dod o hyd i’r ysbrydoliaeth gychwynnol yna – boed yn brofiad personol, erthygl newyddion, rhaglen deledu, hen chwedl neu beth bynnag – gallwch adeiladu ar yr hedyn lleiaf i greu nofel.

**Creu sylfaen**

Mae pawb wedi clywed pobl yn dweud ‘ysgrifennwch am yr hyn rydych chi'n ei wybod’, a does dim amheuaeth nad yw hynny’n lle da i gychwyn. Yn fy achos i, roedd fy nwy nofel gyntaf yn fywgraffiadol iawn (er mai *Y Ddyled* (2014) yw’r un sydd agosaf ati, mae’n siŵr!), gyda’r gyntaf, *Ffawd Cywilydd a Chelwyddau*, yn adrodd hanes dyn ifanc yn gweithio yn niwydiant teledu Caerdydd, gan yfed a ffroeni ei ffordd o amgylch isfyd y ddinas, a ffantasïo am ladd aelodau *boy band* lleol. Jyst fel fi! Mae Luc Swan, y prif gymeriad, a minnau’n rhannu nifer o rinweddau personol, ac mae’r llyfr yn llawn hanesion oedd naill ai wedi digwydd i fi yn uniongyrchol (cael cweir am ddwyn cot – ar gamgymeriad – o Glwb Ifor Bach), neu wedi digwydd i un o fy ffrindiau (cwympo i gysgu mewn puteindy a gorfod talu bil gwerth cannoedd o bunnoedd!). Unwaith eto, yn achos fy ail nofel, *Ffydd Gobaith Cariad*, roedd y prif gymeriad, Alun Brady, yn rhannu nifer o nodweddion gyda fi – o’i gath sinsir dew, i’w gartref yn ardal Cyncoed yng Nghaerdydd, a hyd yn oed ei swydd fel cyfieithydd – ond y peth mwyaf personol yn y llyfr yw perthynas Alun a’i dad-cu sâl, Paddy, sydd wedi dod i farw yn ystafell sbâr y cartref teuluol. Ro’n i’n ysgrifennu’r nofel tra oedd fy mam-gu yn aros am y Medelwr mawr yn Ysbyty Rookwood, Llandaf, ac mae’r sgyrsiau rhwng Alun a Paddy yn seiliedig ar ein sgyrsiau am lenyddiaeth, crefydd a marwolaeth; mae penllanw eu perthynas yn seiliedig ar bledio parhaus fy mam-gu i’w helpu i farw.

Troais fy sylw at ysgrifennu ffuglen *genre* ar ôl fy nwy nofel gyntaf, ond hyd yn oed wrth ysgrifennu am hit-men, ditectifs llwgr, puteiniaid, adeiladwyr amheus a gyrwyr tacsi, rwy’n dal i gloddio’r personol i fwydo’r ffuglennol. Y peth pwysig i’w gofio, waeth beth yw testun eich ffuglen, mae hi wastad yn werth ceisio angori’r cyfan mewn realaeth. Er enghraifft, cyn cychwyn ysgrifennu straeon trosedd am adran dditectifs tref ddychmygol Gerddi Hwyan, hambygiais ffrind oedd ar y *force* er mwyn deall strwythur gorsaf heddlu gyfoes, a’r holl gydrannau dynol perthnasol. Y nod wrth wneud hynny oedd creu sylfaen solet, seiliedig ar realiti, i allu adeiladu fy straeon annhebygol a rhyfeddol ar ei ben. Rwy hefyd wedi cyrchu cyngor ffrindiau er mwyn ysgrifennu ag ychydig o awdurdod am gynghorau tref a’r diwydiant adeiladu. Roedd fy nofel *Helfa* (2024) yn rhannol seiliedig ar fywyd ffrind gorau fy chwaer yng nghyfraith oedd yn gyrru tacsi ar Ynys Môn am ugain mlynedd.

**Gair (neu ddau) o gyngor**

A minnau wedi cyhoeddi dros bymtheg o nofelau, mae’n deg dweud bod gen i beth profiad yn y maes erbyn hyn. O ganlyniad, hoffwn gyflwyno rhestr ichi o reolau i’ch helpu ar hyd y daith.

- Peidiwch â dechrau llyfr gyda disgrifiadau hirwyntog o'r elfennau, adeiladau ac ati. Mynnwch sylw eich darllenwyr o'r dudalen gyntaf a pheidiwch â gollwng gafael ynddyn nhw. Rwy'n trin pob pennod o nofel fel stori fer o fath, ac rwy'n ceisio sicrhau bod *rhywbeth* yn digwydd ym mhob pennod. Y nod, bob tro, yw sicrhau bod y darllenydd eisiau troi'r dudalen a gweld beth fydd yn digwydd nesaf.
- Gweithiwch ar un peth yn unig tan ichi ei orffen. Mae ffocws yn hollbwysig. Rwy'n adnabod awduron sy'n gweithio ar lond llaw o brosiectau ar unwaith, ond nid dyna'r ffordd rwy'n gweithio. Dim digon o frêns, mae'n siŵr!
- Mae'n well ychwanegu 100 gair bob dydd at eich nofel, na gadael amser maith rhwng eich sesiynau, gan fod cysondeb yn allweddol wrth ysgrifennu darn hir o ryddiaith, fel nofel.
- Os ydych chi'n ysgrifennu am le penodol sy'n bodoli go iawn, gwnewch yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â'r lle hwnnw. Mae Google Street View yn adnodd gwerthfawr, heb os, ond ewch yno os yw'n bosib. Edrychwch o'ch cwmpas. Nodwch y nodweddion daearyddol. Gwnewch fap. Tynnwch ffotograffau. Yn fy nofel, *Taffia*, pan fo'r prif gymeriad, Danny Finch, yn mynd i Andalucia ar drywydd ei brae, mae'n dilyn fy ôl-traed i a fy ngwraig ar ein mis mêl, gan fy ngalluogi unwaith eto, i ddefnyddio profiad personol i ychwanegu lliw at fy rhyddiaith.
- Ysgrifennwch gyda'ch synhwyrau i gyd, yn hytrach na dim ond eich llygaid. Beth all eich cymeriadau glywed, arogli ac ati, yn hytrach na'r hyn y maen nhw'n ei weld yn unig.
- Anghofiwch am y llyfrau rydych yn bwriadu eu hysgrifennu yn y dyfodol. Canolbwyntiwch ar orffen y llyfr yma yn gyntaf.
- Diffoddwch eich ffôn ac anghofiwch am y cyfryngau cymdeithasol pan fyddwch yn ysgrifennu. Yn bersonol, sa'i hyd yn oed yn cysylltu â'r rhyngrwyd wrth ysgrifennu. Rwy'n defnyddio copi caled o *Eiriadur yr Academi* yn hytrach na'r fersiwn ar-lein, ac yn gwirio unrhyw ffeithiau neu fanylion angenrheidiol ar ddiwedd y dydd.
- Taflwch bopeth sydd gyda chi at y drafft cyntaf. Cofiwch mai'r drafft cyntaf yw chi yn adrodd y stori wrthoch chi eich hunan. Gallwch olygu, cwtogi, mireinio, ehangu, ymhelaethu ac ailysgrifennu yn eich ail a'ch trydydd drafft.
- Er bod yna reolau i'w dilyn, y peth pwysicaf i'w gofio yw mai canllawiau yn unig ydyn nhw. Wrth fynd ati i ysgrifennu nofel byddwch yn creu set o'ch rheolau eich hun, a bydd y 'rheolau' hyn yn datblygu a newid wrth i chi ddatblygu a newid fel awduron.
- Ceisiwch osgoi ystrydebau . . . fel y pla.
- Mae wastad yn well gweld dau gymeriad yn siarad â'i gilydd, na gorfodi'r darllenydd i ddarllen disgrifiad o'r un olygfa.
- Cadwch eich rhyddiaith mor syml a phosib a pheidiwch â defnyddio geiriau estron a chymhleth. Un gŵyn rwy'n ei chlywed yn aml – hyd yn oed gan bobl sy'n gwbl rhugl eu Cymraeg – yw bod nofelau Cymraeg yn defnyddio iaith sy'n rhy gymhleth. Yn wir, dyma un o'r pethau sy'n atal cymaint o ddarllenwyr ifanc rhag parhau i ddarllen llyfrau Cymraeg ar ôl gadael yr ysgol. Defnyddiwch iaith bob dydd ble bynnag mae hynny'n bosib.
- Os oes problem gyda'ch trydedd act, ewch nôl i edrych ar eich act gyntaf. Bydd yr ateb yno yn rhywle.
- Peidiwch â rhuthro. Marathon yw ysgrifennu nofel, nid ras wibio.
- Darllenwch. Darllenwch. Darllenwch.

Nofelydd profiadol a phoblogaidd o Gaerdydd yw **Llwyd Owen** sydd wedi cyhoeddi nifer o nofelau. Enillodd ei ail gyfrol *Ffydd Gobaith Cariad* (2006) brif wobr cystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn yn 2007, a chyrhaeddodd ei nofel *Iaith y Nefoedd* (2019) restr fer categori ffuglen Llyfr y Flwyddyn 2020. Mae ei nofel ddiweddaraf, *Bechgyn Drwg am Byth* newydd ei chyhoeddi gan Y Lolfa.

**Cyfeiriadau**


Owen, Llwyd. 2006. *Ffawd Cywilydd a Chelwyddau.* Talybont: Y Lolfa.
Owen, Llwyd. 2006. *Ffydd Gobaith Cariad.* Talybont: Y Lolfa.
Owen, Llwyd. 2007. *Yr Ergyd Olaf.* Talybont: Y Lolfa.
Owen, Llwyd. 2009. *Mr Blaidd.* Talybont: Y Lolfa.
Owen, Llwyd. 2012. *Heulfan.* Talybont: Y Lolfa.
Owen, Llwyd. 2014. *Y Ddyled.* Talybont: Y Lolfa.
Owen, Llwyd. 2016. *Taffia.* Talybont: Y Lolfa.
Owen, Llwyd. 2018. *Pyrth Uffern.* Talybont: Y Lolfa.
Owen, Llwyd. 2024. *Helfa*. Talybont: Y Lolfa.
Price, Karen. 2014. From Hollywood to Valleywood: Richard Attenborough’s gift to Wales. *WalesOnline*, 25 Awst. Ar gael: From Hollywood to Valleywood: Richard Attenborough's gift to Wales - Wales Online
2025. Robert Johnston, 1911–1938. Ar gael: Robert Johnson - Wikipedia



*Cyhoeddiad Mynediad Agored: CC BY-SA 4.0*

*Mae’r testun hwn wedi’i ryddhau dan y drwydded Creative Commons BY-SA 4.0, sy’n eich caniatáu i’w ail-ddefnyddio a’i newid mewn unrhyw ffordd os ydych yn rhoi cydnabyddiaeth ar ffurf dolen i’r dudalen hon, ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Gweler testun y drwydded am ragor o fanylion.*